Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

15 Chwefror 2000

Annwyl Gyfaill

**ETAG: NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I SWYDDOGAETHAU'R CYNGHORAU HYFFORDDI A MENTER (TECs)**

Yn ddiweddar, rhoddodd y Cynulliad sel ei fendith i'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad ETAG ac yn y Cynllun ar gyfer eu gweithredu. Y prif argymhelliad yw bod cyfrifoldeb am addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Addysg a Hyfforddiant. Diddymir y Cynghorau Hyfforddi a Menter. Felly, cyfyd y cwestiwn, beth ddylai ddigwydd i'r swyddogaethau menter a swyddogaethau tebyg y mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter ar hyn o bryd yn ymgymryd â nhw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gynnig argymhellion yngln â hyn. Penderfynodd y Pwyllgor yr ystyrir hyn fel rhan o arolwg ehangach ar Gefnogi a Datblygu Busnes. Cylch gwaith yr arolwg fydd:

1 Clustnodi'r ystod bresennol o raglenni cynnal a datblygu busnes.

2 Ystyried eu heffeithiolrwydd a gweld a ydynt yn bodloni anghenion busnesau.

3 Ystyried a yw'r dulliau darparu yn briodol gan glustnodi unrhyw gyfleoedd i wella a rhesymoli.

4 Clustnodi bylchau yn y ddarpariaeth a gwneud argymhellion yngln â'r modd y

gellir cyflawni’r amcanion hynny yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol.

Dywed y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol:

"A radical new approach should provide all businesses with a comprehensive range of quality services, but there must also be a special focus on maximising the potential of those companies with real growth potential."

Cytunodd y Pwyllgor yng nghyfarfod 26 Ionawr bod gofyn ystyried dyfodol y swyddogaethau Menter a swyddogaethau tebyg yn gynnar yn ystod yr arolwg (gweler yr Atodlen), a hynny oherwydd materion yn ymwneud â chontractau a materion staffio.

Mae’r Pwyllgor yn awyddus i gael barn ar y gwahanol ddewisiadau gan y rheiny sydd â phrofiad o ddefnyddio a darparu gwasanaethau cefnogi a datblygu o’r fath. Byddai’r Pwyllgor yn croesawu eich barn, yn arbennig, ar effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn a’r modd y maent yn cydweddu â fframwaith ehangach cefnogi busnes. Croesewir eich sylwadau ar y canlynol yn enwedig:

a. Beth yw’r ffordd orau o gynnal a datblygu prif nodweddion yr ystod hon o wasanaethau busnes ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys eu gallu i gyfrannu tuag at gynyddu gallu o fewn y sector cwmnïau bychain;

b. Pa un a ddylid cadw ynghyd fel un ‘pecyn’ y tri phrif gynllun sy’n ymwneud â datblygu menter (y Rhaglen Dechrau Busnes Newydd; y Fenter Masnachwyr Unigol, a’r Gwasanaeth Diagnosteg ac Ymgynghori), neu a ddylid eu hollti rhwng y gwahanol sefydliadau cefnogi busnes. Beth fyddai’r ffordd orau o drefnu hyn, o ystyried anghenion cwsmeriaid busnes?

c. Sut yn y dyfodol y dylid darparu’r seilwaith cefnogi a hyfforddi ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofal Plant, sy’n cael ei hariannu ar hyn o bryd gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter a’i darparu trwy Chwarae Teg?

Mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo egwyddor lleoli swyddogaethau mentergarwch sy'n seiliedig ar fedrau Buddsoddwyr Mewn Pobl, Menter Hyfforddiant Busnesau Bach a Datblygu Rheoli â Chyngor Addysg a Hyfforddiant newydd Cymru.

Yn achos holl gynlluniau allweddol rhaglen fenter y Cynghorau Hyfforddi a Menter, mae ffin amlwg rhwng yr hyn a gomisiynir ar lefel Cymru gyfan/rhanbarth, a’r hyn a ddarperir yn lleol. O ystyried hynny, beth yn eich barn chi yw’r ffordd orau o sicrhau eu bod yn berthnasol ac ar gael yn hawdd i gwsmeriaid busnes yn y dyfodol?

Wedi derbyn eich sylwadau, mae’n bosib y bydd y Pwyllgor yn awyddus i wahodd rhai sefydliadau i gyflwyno’u syniadau. Os byddai gennych ddiddordeb mewn gwneud hynny, nodwch hynny yn eich ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu eich ymateb, yn Gymraeg ac yn Saesneg os oes modd, erbyn 4 Mawrth. Anfoner copi caled drwy’r post at:

Christine Jones
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Swyddfa’r Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
neu anfonwch e-bost i: Economic.comm@wales.gsi.gov.uk.

Os cyfyd unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Jo Trott neu Jo Glenn, Dirprwy Glercod y Pwyllgor Datblygu Economaidd, ar 02920 898224 neu 898019.

Yn gywir

Val Feld
Cadeirydd
Pwyllgor Datblygu Economaidd

**Atodlen**

## Rhaglen Menter TEC

1. Mae’r Rhaglen Menter TEC yn cynnwys nifer o wahanol gynlluniau, pob un ohonynt wedi’u cynllunio i gynorthwyo gyda datblygu mentrau bychain a chanolig cynhenid yng Nghymru. Mae’r rhaglen yn cynnwys pedair prif elfen – datblygu adnoddau dynol (gan gynnwys Buddsoddwyr mewn Pobl); Dechrau Busnes Newydd; y Gwasanaeth Diagnosteg ac Ymgynghori; a’r Fenter Hyfforddi Cwmnïau Bach. Mae’r Cynghorau Hyfforddi a Menter hefyd yn cymryd arnynt nifer o swyddogaethau cyffredinol eraill sy’n gysylltiedig â rheoli busens – er enghraifft, rheoli rhwydweithio rhwng cwmnïau.

a. **Datblygu Adnoddau Dynol** [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £5.0 miliwn – yn gwasanaethu hyd at c.2,500 o gyrff y flwyddyn]. Mae’r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn rheoli

3 chynllun datblygu gweithlu sy'n perthyn i'w gilydd ac mae pob un ohonynt yn helpu busnesau bach a chanolig i glustnodi a bodloni'r angen am ddatblygu a hyfforddiant. Maent yn cynnwys:-

Buddsoddwyr mewn Pobl – mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn hybu Buddsoddwyr mewn Pobl ar lefel leol ac yn helpu cyrff unigol, boed fach neu fawr, i gyrraedd y safon. Mae'r Cynghorau'n cefnogi cyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Menter Hyfforddi Cwmnïau Bach - mae'r cynllun hwn wedi'i anelu'n benodol at gwmnïau bach y sector preifat (sy'n cyflogi llai na 50). Drwy weithiwr allweddol, caiff cynllun hyfforddi'r cwmni ei ddatblygu a'i roi ar waith.

Datblygu Rheolwyr – Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn cynnal ystod o weithgareddau i helpu BBaCh i ddatblygu medrau eu rheolwyr – gan gynnwys cymorth ariannol i reolwyr unigol ddilyn NVQs a defnyddio ymgynghorwyr i helpu gwella timoedd rheoli'r cwmni.

Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn ategu'r cynlluniau hyn – o'u cyllideb dewisol neu o'r arian sy'n weddill ganddynt – trwy ddysgu sgiliau i gwmnïau sy'n ehangu neu'n mewnfuddsoddi, er mwyn helpu diogelu'r swyddi o dan sylw. Mae cymorth o'r fath weithiau wedi'i anelu at ddileu'r bwlch mewn rhai sgiliau penodol.

b. **Mathau eraill o gymorth a ddarperir gan Fentrau'r Cynghorau Hyfforddi a Menter**

2. Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter hefyd yn rheoli'r tri chynllun canlynol ac mae pob un ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu/twf busnesau:-

i. Rhaglen Cychwyn Busnesau Newydd [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £1.3miliwn – yn gwasanaethu hyd at 1,100 o fusnesau y flwyddyn]. Mae'n cynnwys annog mwy o fentrau o ansawdd da i gychwyn trwy ddatblygu cynlluniau busnes, hyfforddiant mewn sgiliau perthnasol, etc – a thrwy gyngor parhaus a mathau eraill o gefnogaeth i helpu'r cwmnïau hyn i oroesi a thyfu. Mae trwch y rhaglenni yn cael eu darparu gan yr asiantaethau menter o dan gontract i'r Cynghorau Hyfforddi a Menter.

ii. Menter Masnachwyr Unigol [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £0.4miliwn – yn gwasanaethu hyd at 400-500 o fasnachwyr unigol neu weithwyr hunan-gyflogedig y flwyddyn]. Mae'r fenter hon yn unigryw i Gymru a'i bwriad yw creu swyddi newydd ac ehangu busnesau bach drwy helpu masnachwyr unigol i gyflogi'u gweithiwr cyntaf.

iii. Gwasanaeth Diagnostig ac Ymgynghori [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £1.4miliwn – yn gwasanaethu hyd at 1500 o gwmnïau y flwyddyn]. Mae'r cynllun hwn yn helpu busnesau i edrych ar eu cryfderau/gwendidau a rhoi cymorth iddynt trwy ddarparu cymorth ymgynghorydd i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u clustnodi. Mae'n cynnwys 3 prif elfen: arolygon anffurfiol o fusnesau; arolygon diagnostig manylach; a gellir rhoi cymhorthdal i ymgynghorwyr allanol fynd i'r afael â materion sydd wedi'u clustnodi yn yr arolwg/astudiaeth ddiagnostig.

c. **Swyddogaethau eraill y Cynghorau Hyfforddi a Menter nad ydynt yn ymwneud â Menter**

3. Mae’r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn gyfrifol hefyd am ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant mewnol ar gyfer y Strategaeth Gofal Plant.